Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Angela Burns AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

31 January 2011

Annwyl Angela

**Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2010-11**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnig Cyllideb Atodol ar gyfer 2010-11 ar 8 Chwefror 2011. Bydd yn cynnwys addasiadau i gyllideb cyfalaf a chyllideb refeniw Comisiwn y Cynulliad. Nod yr addasiadau, yn syml, yw cysoni'r gwariant a gyllidebwyd, yn unol â'r diffiniadau cyfrifyddu o Gyfalaf a Refeniw. Nid yw'r gyllideb a gymeradwywyd—hynny yw, y cyfansymiau rheoli ar gyfer adnoddau net, sef adnoddau cronnus ac arian parod—yn cael ei haddasu, ac ni fydd y Gyllideb Atodol yn golygu unrhyw newid yn yr adnoddau cyffredinol a fydd ar gael i'r Comisiwn.

Ar 9 Mehefin 2010, dywedais wrthych ein bod yn disgwyl gwario £1.8 miliwn ar y prosiect UNO yn 2010-11. Y gwir wariant yn y flwyddyn ariannol hon yw £1.78 miliwn, a'r elfen gyfalaf o'r gwariant hwn, yn ôl yr asesiad, yw £1.7 miliwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8233
E-bost/Email: Claire.Clancy@wales.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Yn ogystal, mae gan y Comisiwn brosiectau cyfalaf llai eraill i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r asesiad cyfredol yn nodi mai gwerth cynnwys cyfalaf y prosiectau hyn yw £0.675 miliwn.

Golyga hyn mai'r gofyniad cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11 yw £2.375 miliwn. Cyllideb adnoddau net y Comisiwn a gymeradwywyd ar gyfer 2010-11, ac eithrio £0.5 miliwn o Wariant a Reolir yn Flynyddol, yw £46.227 miliwn, sef cyllideb refeniw o £45.452 miliwn a chyllideb cyfalaf o £0.775 miliwn.

Cytunwyd ar y ffigurau hyn â'r Llywodraeth. Bydd y gyllideb atodol yn addasu'r elfen refeniw i £43.852 miliwn a'r elfen gyfalaf i £2.375 miliwn.

Yn gywir

Claire

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**

Atodiad A

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2010-11**<br>**Crynodeb o'r newidiadau** | 21 Hydref 2009 | 13 Gorffennaf 2010 | Ffigur diweddaraf |
| | | | |
| | £000 | £000 | £000 |
| | | | |
| Cyllideb Adnoddau Net | 48,973 | 46,727 | 49,701 |
| Adnoddau Cronnus | 210 | 210 | 160 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (cyllideb arian parod) | 43,405 | 43,405 | 44,301 |
| | | | |
| Mae'r Gyllideb Adnoddau Net yn cynnwys: | | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw | 48,198 | 45,452 | 43,852 |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 775 | 775 | 2,375 |
| | 48,973 | 46,227 | 46,227 |
| Gwariant Refeniw a Reolir yn Flynyddol | - | 500 | 500 |
| Cyfanswm yr Adnoddau | 48,973 | 46,727 | 46,727 |

Atodiad B

## Dadansoddiad o'r gyllideb yn ôl cost ac incwm

| | Ailddatganiad o'r Gyllideb ar gyfer 2010-11 £000 | Cyllideb Atodol, 13 Gorffennaf 2010 | Cyllideb Atodol, Chwefror 2011 |
|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | | |
| Cyflogau, lwfansau a chostau cysylltiedig yr Aeloda | 13,880 | 13,380 | 13,380 |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 14,726 | 14,726 | 14,476 |
| Costau recriwtio ac adnoddau dynol eraill | 151 | 151 | 151 |
| Costau hyfforddiant a datblygu | 250 | 250 | 250 |
| Costau teithio a chynhaliaeth y staff | 208 | 208 | 208 |
| Costau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 4,258 | 4,258 | 3,508 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 7,181 | 7,181 | 6,881 |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | 896 | 896 | 596 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,456 | 1,456 | 1,456 |
| Cronfa wrth gefn | 334 | 334 | 334 |
| Dibrisiant a chostau llog tybiannol | 5,068 | 2,822 | 2,822 |
| **Gwariant Reveniw Crynswth** | **48,408** | **45,662** | **44,062** |
| *Incwm Refeniw* | | | |
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | -40 | -40 | -40 |
| Incwm rhentu adeiladau | -90 | -90 | -90 |
| Incwm amrywiol | -80 | -80 | -80 |
| **Incwm Reveniw Crynswth** | **-210** | **-210** | **-210** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **48,198** | **45,452** | **43,852** |
| | | | |
| Gwariant cyfalaf – creu asedion sefydlog | 775 | 775 | 2,375 |
| Incwm cyfalaf – gwaredu asedion sefydlog | | | |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | **775** | **775** | **2,375** |
| | | | |
| **GOFYNIAD ADNODDAU NET** | **48,973** | **46,227** | **46,227** |
| | | | |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **0** | **500** | **500** |
| | | | |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU** | **48,973** | **46,727** | **46,727** |